



DATGANIAD NEWYDDION

18 MAWRTH 2022

YMATEB Y CORFF GWARCHOD IECHYD I GYNLLUNIAU AR GYFER Y GWASANAETHAU FASGWLAR YNG NGOGLEDD CYMRU

Mae corff gwarchod annibynnol gwasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru – Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) wedi rhoi sylwadau ar y cynlluniau sy'n ymwneud â rai o wasanaethau fasgwlar y rhanbarth.

Cyflwynwyd datganiad yr wythnos yma gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn hysbysu am ddigwyddiadau difrifol yn ymwneud â diogelwch cleifion a phroblemau staffio yn ei wasanaeth fasgwlar. Mae BIPBC hefyd wedi datgan ei fod wedi gwneud cynlluniau i drosglwyddo nifer fach o gleifion fasgwlar o ogledd Cymru i Ganolfan Fasgwlar Lerpwl ac o'i fwiad i oedi triniaeth ac apwyntiadau i nifer o gleifion eraill.

Dywedodd Mr Geoff Ryall-Harvey, Prif Swyddog CICGC, 'Rydym yn drist o glywed am y digwyddiadau difrifol sydd wedi cael effaith sylweddol ar gleifion ac mae ein meddyliau gyda'r cleifion hynny a'u teuluoedd ar yr adeg anodd yma. Rydym yn siomedig o gael gwybod y bydd rhai cleifion yn profi mwy o oedi o ran eu triniaeth a rheoli eu problemau fasgwlar. Er hynny, mae CICGC yn croesawu'r cymorth a gynigir gan y Bwrdd Iechyd i'r cleifion hynny wrth ymdrin gyda'r ansicrwydd tra fo cynlluniau yn cael eu rhoi yn eu lle, a byddwn ninnau fel mudiad annibynnol yn parhau i ddarparu cymorth i gleifion gyda eu profiadau.'

'Y mis diwethaf fe wnaeth CICGC annog BIPBC a Llywodraeth Cymru i ystyried anfon y cleifion fasgwlar mwyaf cymhleth a'r rhai efo'r risg mwyaf yn uniongyrchol i Lerpwl, Caer neu wasanaeth arall priodol. Fe wnaethom ddweud ein bod yn credu y byddai hyn yn gwella hyder cleifion tan fo'r gwelliannau angenrheidiol wedi eu gwneud a'u bod ywedi profi yn effeithiol. Croesawn y sicrwydd a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd ac

rydym yn falch ei fod wedi nodi yn gyhoeddus rhai o'i gynlluniau a'r amserlen i ddiogelu cleifion.'

Aeth Mr Ryall-Harvey yn ei flaen i ddweud, 'Fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidog lechyd ym mis Chwefror eleni gan ofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu'r holl gymorth angenrheidiol i weithredu ac i ystyried trosglwyddo nifer o gleifion fasgwlwr brys i Lerpwl neu wasanaeth priodol sy'n hygyrch i gleifion gogledd Cymru. Dywedwyd wrth y Gweinidog ein bod yn credu y bydd hyn yn darparu cymorth a'r cymhelliad sydd ei angen i ymdrin gyda phroblemau hirdymor sy'n effeithio ar y gwasanaeth.'

'Mae CICGC yn awr yn dymuno gweld mwy o fanylion am gynlluniau'r Bwrdd lechyd, yn benodol, yr effaith ar gleifion a'u teuluoedd. Rydym eisoes wedi gofyn i'r Bwrdd lechyd i adael i ni wybod pa gymorth fydd cleifion a theuluoedd yn ei dderbyn - er enghraifft, pan ddaw i faterion fel teithio i Lerpwl, llety dros nos, adferiad a'r costau dilynol a achosir.'

Rydym wedi gwahodd y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarfod gyda CICGC yn ystod yr wythnosau nesaf i drafod y problemau hirdymor yn BIPBC mewn perthynas â gwasanaethau fasgwlwr a iechyd meddwl yn ngogledd Cymru.

Nodiadau i olygyddion

1 Mudiad annibynnol statudol yw Cyngor lechyd Cymuned Gogledd Cymru (CIC) sy'n cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd yn y Gwasanaeth lechyd Gwladol yng Ngogledd Cymru. Daeth i fod ar 1 Ebrill 2010 fel rhan o ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru gan wasanaethu Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd. Wrecsam ac Ynys Môn. Mae poblogaeth gyfun y chwe sir oddeutu 675,500.

2 Mae gan y Cyngor lechyd Cymuned chwe pwyllgor lleol, un ar gyfer y chwe sir. Mae pob pwyllgor lleol yn cynnwys aelodau a ddaw o dair ffynhonnell: cynghorwyr a enwebwyd gan yr awdurdod lleol perthnasol, pobl a enwebwyd gan fudiadau o'r sector gwirfoddol lleol a phobl leol a benodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mwy o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, neu gyfweiliad gyda Geoff Ryall- Harvey cysylltwch â CIC Gogledd Cymru, rhif ffôn: 01248 679284 neu ebost: carol.williams63@wales.nhs.uk

Diwedd